## Sylwadau ac Ystyriaethau'r Ymgynghoriad

Yn ogystal â'r gyfres o gwestiynau ymgynghori penodol, roedd opsiwn i drigolion adael sylwadau pellach i gynorthwyo gydag adolygu'r strategaeth. Mae'r sylwadau hyn wedi'u coladu fesul thema a'u categoreiddio yn y tablau canlynol.

**Gwyrdd:** Sylwadau sy'n ymwneud â meysydd ffocws neu awgrymiadau a oedd eisoes wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Adnoddau a Gwastraff ddrafft. Mae hyn yn dangos bod y strategaeth yn cyd-fynd yn dda â disgwyliadau trigolion.

**Oren:** Mae sylwadau sy'n ymwneud â meysydd ffocws neu awgrymiadau nad oedd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Adnoddau a Gwastraff ddrafft, bellach wedi'u hystyried. Mae hyn yn dangos gwerth, ac adborth cadarnhaol, yr ymgynghoriad cyhoeddus.

**Coch:** Sylwadau sy'n ymwneud â meysydd ffocws neu awgrymiadau y gwyddom na fyddwn yn eu gweithredu oherwydd bod eu heffeithiau'n gwrthdaro ag amcanion y strategaeth.

Lle nad yw sylwadau neu awgrymiadau wedi'u cynnwys yn y strategaeth, yna bydd dogfen cwestiynau cyffredin yn cael ei chynhyrchu yn hysbysu ymatebwyr pam na fu'n bosibl cynnwys eu hawgrymiadau.

| GWYRDD |
|---|
| Cefnogi cyflwyno casgliadau newydd. |
| Galw am gyflwyno gwasanaeth casglu ailgylchu plastigion meddal. |
| Lleihau amlder y gwasanaeth casglu gwastraff gweddilliol (bin du) presennol. |
| Cefnogi cynlluniau cymunedol (mannau gollwng / cynlluniau ailddefnyddio a chyfnewid). |
| Cefnogaeth ar gyfer gorfodaeth gyda thipio anghyfreithlon. |
| Cefnogaeth i orfodi'r rhai nad ydynt yn gwneud unrhyw ymdrech i ailgylchu (yn dilyn ymchwiliad i sicrhau nad oes unrhyw rwystrau sy'n eu hatal rhag gwneud hynny). |
| Cefnogi adolygiad o'r cynwysyddion ailgylchu presennol |
| Cefnogaeth ar gyfer dull addysgol cyn cymryd camau gorfodi |
| Cefnogaeth ar gyfer casgliadau â chymorth i breswylwyr â phroblemau hygyrchedd / symudedd a thrigolion sy'n cael trafferth cyflwyno eu deunyddiau ymyl y ffordd. |
| Cefnogi lleihau amlder y casgliadau a fethwyd / na ddychwelir ar eu cyfer. |
| Camau gorfodi cryfach i'w cymryd yn erbyn tipio anghyfreithlon. |
| 'Amnewid naturiol' o gerbydau Fflyd (parhau i atgyweirio / addasu cerbyd lle bo modd). |
| Ymgymryd â chasgliadau batris. |
| Argaeledd / hygyrchedd bagiau/bocsys newydd. |
| Darparu cefnogaeth barhaus i'r arferion presennol sy'n gweithio. |
| Cefnogi edrych ar ychwanegu ffrydiau gwastraff nad ydynt yn cael eu casglu ar hyn o bryd. |
| Ymarferion storio'r cynwysyddion presennol gartref. |
| Rhwystrau - oedran, symudedd, iechyd meddwl, ffobiâu. |
| Nodiadau atgoffa aml o wybodaeth ailgylchu. |
| Cael cynwysyddion ailgylchu newydd pan fo angen. |
| Gweithredu Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Domestig |
| Casgliadau cynnyrch hylendid amsugnol (AHP) annibynadwy. |
| Nid yw trigolion yn cymryd rhan mewn ailgylchu bwyd oherwydd ei fod yn arogli, yn anhylan, yn denu anifeiliaid ac nid oes digon o le ar gyfer y cadi cegin. |
| Dylid cyfeirio arian y Cyngor at orfodi yn hytrach nag ar ULEV ac ati. |
| Pryderon am nifer y cerbydau sydd eu hangen ar gyfer rowndiau - lleihau nifer y cerbydau ar y ffordd. |
| Stopio cynwysyddion / biniau yn cael eu taflu a'u torri / colli. |
| Mynd i'r afael â materion mynediad - cerbydau ddim yn gallu cael mynediad i eiddo (lonydd a cheir wedi'u parcio). |
| Mae angen cynwysyddion ailgylchu mwy i gynnwys mwy o ddeunyddiau ailgylchu |
| Cyflwyno polisi bagiau clir mewn canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref. |
| Awdurdod yn gosod targedau afrealistig / anghyraeddadwy (Datgarboneiddio, Sero Net, ULEV) gan nad oes gennym y seilwaith i gefnogi newidiadau o'r fath. |

| OREN |
| --- |
| Cynyddu addysg ac ymgysylltiad o fewn Ysgolion |
| Darparu gwybodaeth glir a chryno am yr hyn y gellir ac na ellir ei ailgylchu. |
| Hyrwyddo compostio gartref. |
| Gweithio gyda sefydliadau Trydydd Sector i leihau gwastraff / plastig untro ac ati. |
| Mynd i'r afael â materion hygyrchedd i Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref ar gyfer y rhai na allant yrru. |
| Cefnogaeth Ychwanegol - Symudedd / Iechyd / rhwystrau iaith a all olygu bod angen mwy o help ar drigolion i ddeall. |
| Parhau i hyrwyddo gweithdai/cynlluniau cymunedol a digwyddiadau i addysgu pobl. |
| Ei gwneud yn haws i drigolion ddefnyddio canolfannau ailgylchu (a fydd yn ei dro yn lleihau tipio anghyfreithlon). |
| Awdurdod yn gwella ac addasu ein dulliau cyfathrebu ein hunain (i leihau ein hôl troed carbon ein hunain / cynyddu ymgysylltiad â'n cynulleidfa / angen gwybodaeth gryno glir). |
| Beirniadaeth uniongyrchol yn ymwneud â'r Arolwg Gwastraff ei hun. Nid yw'r iaith a'r derminoleg a ddefnyddir yn glir, mae diffyg dealltwriaeth gan y cyhoedd. |
| Mae'r rheolau a'r cyfyngiadau presennol o bosibl yn digalonni pobl. |
| Byddai preswylwyr yn ymgysylltu mwy pe bai ailgylchu yn haws (rinsio cynwysyddion, mae angen teithiau lluosog i roi biniau allan) |
| Cyflwyno ‘siop’ ailgylchu gwastraff y cartref / man cymryd am ddim. |
| Y gred bod ailgylchu yn cael ei ddidoli ond wedyn yn cael ei gymysgu wrth ei gasglu. |
| Gweithredol - dylai criwiau fod wedi'u haddysgu'n well i helpu i roi cyngor pellach i breswylwyr. |

| COCH |
| --- |
| Dim newidiadau i amlder a chynhwysedd casglu presennol. |
| Cynyddu amlder y casgliadau bin du gwastraff gweddilliol presennol. |
| Casgliadau biniau brown (cynyddu maint a dileu'r tâl am gasgliadau). |
| Ni ddylid cymryd unrhyw gamau gorfodi (costau byw ac ati) |
| Cyflwyno bin ar olwynion cymysg ar gyfer ailgylchu. |
| Dim costau ychwanegol wedi'u cyflwyno / pris gostyngol ar gyfer casgliadau swmp. |
| Dylid casglu gwastraff bwyd yn fwy aml. |
| Mae angen adolygu / gwneud rheolau trwydded fan yn haws. |
| Cynyddu oriau agor y canolfannau ailgylchu. |
| Allanoli casgliadau gwastraff i gontractwr preifat. |
| Canolfannau ailgylchu - mae trigolion wedi'u cyfyngu oherwydd na allant gael trwydded ar gyfer eu cerbyd. |
| Cynyddu nifer y canolfannau ailgylchu. |
| Hybiau Ychwanegol / safleoedd casglu cymunedol ar gyfer y rhai na allant gael mynediad i’r safleoedd cyfredol |